Ailbenodi Heather Hancock fel Cadeirydd Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Bu Heather yn Ddirprwy Gadeirydd o fis Hydref 2015 cyn cael ei phenodi'n Gadeirydd y Bwrdd ym mis Ebrill 2016.

Meddai Heather Hancock:

‘Rwy'n hynod falch fy mod wedi cael fy ailbenodi'n Gadeirydd yr ASB ac rwy'n edrych ymlaen at wireddu'r cynlluniau uchelgeisiol a osodais ar gyfer yr Asiantaeth pan ddes i'n Gadeirydd yn 2016. Mae ein paratoadau ar gyfer Ymadael â'r UE wedi bod yn drylwyr ac yn effeithiol felly rwy'n teimlo'n hyderus, beth bynnag fo'r canlyniad, y bydd pobl yn parhau i gael bwyd y gallant ymddiried ynddo. Mae tair blynedd wedi mynd rhagddo yn ein rhaglen i foderneiddio tirlun rheoleiddiol bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac rydym ni'n dechrau cyflwyno newid a buddion go iawn trwy ein rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol.

‘Mae yna ragor o waith i'w wneud i sicrhau ein bod ni'n parhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd, a sicrhau gwell sicrwydd i ddefnyddwyr. Byddaf i a'r Bwrdd yn canolbwyntio ar nifer o faterion, gan gynnwys alergenau, safonau bwyd, a bod yn fwy agored am ddiogelwch bwyd dros y tair blynedd nesaf. Hoffwn ni hefyd ddiolch i staff yr ASB o bob un o'r tair gwlad am eu hymdrechion rhyfeddol i gyflawni'r holl waith yn ystod amser heriol iawn.

Mae aelod o Fwrdd yr ASB, David Brooks, hefyd wedi'i ailbenodi yn ei swydd a bydd yn parhau i fod yn aelod o'r Bwrdd tan 31 Mawrth 2022.

Mae hanes proffesiynol llawn a diddordebau busnes Heather ar gael ar adran y Bwrdd o'n gwefan.